# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 25 Mehefin 2013** |
| Amser: | **09:00 – 11:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_25_06_2013&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Darren Millar (Cadeirydd)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AC**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Jocelyn Davies**<br>**Sandy Mewies** |
| Tystion: | **Gareth Jones, Llywodraeth Cymru**<br>**Kath Palmer, Llywodraeth Cymru**<br>**Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Paul Dimblebee, Cyfarwyddwr Grŵp – Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru**<br>**Matthew Mortlock, Performance Specialist. WAO**<br>**Steve Ashcroft, Swyddfa Archwilio Cymru** |
| Staff y Pwyllgor: | **Tom Jackson (Clerc)**<br>**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd.

1.2 Fe wnaeth Jocelyn Davies ddatgan buddiant yn eitemau 2 a 7 fel cyn Weinidog a oedd yn gyfrifol am dai ac ni chymerodd ran yn yr eitemau hynny.

## 2 Cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru - Y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Gareth Jones, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Dyfodol Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru; Kath Palmer, Dirprwy Gyfarwyddwr Cartrefi a Lleoedd, Llywodraeth Cymru; a Lisa Dobbins, y Tîm Ansawdd Tai, Llywodraeth Cymru.

2.2 Fe wnaeth y Pwyllgor waith craffu ar y tystion.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu:

- nodyn ar gylch gorchwyl y Tasglu Gweinidogol a sefydlwyd i fynd i'r afael â'r cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru, gan gynnwys rhestr o'i aelodaeth.
- nodyn ar argymhellion yr adolygiad o'r fframwaith rheoleiddio gan Fwrdd Rheoleiddiol Cymru, gan gynnwys manylion am sut mae hynny'n mynd i'r afael â gweithredu'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn ei adroddiad.
- Astudiaethau achos o arfer da o ganlyniad i waith a wnaed gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fanteision Cymunedol.

## 3 Sesiwn friffio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Weithredu'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru; Paul Dimblebee, Cyfarwyddwr y Grŵp, Swyddfa Archwilio Cymru; a Steve Ashcroft, Rheolwr Archwilio Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru.

3.2 Gwahoddodd y Cadeirydd Archwilydd Cyffredinol Cymru i roi briff i'r Pwyllgor ar ganfyddiadau ei adroddiad am weithredu fframwaith cenedlaethol ar gyfer gofal iechyd parhaus y GIG.

3.3 Holodd y Pwyllgor Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol a'i raglen waith ar gyfer tymor yr haf 2013.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

## 6 Ystyried yr opsiynau ar gyfer ymdrin ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG

6.1 Trafododd y Pwyllgor sut yr hoffai ymdrin â chanfyddiadau adroddiad yr archwilydd cyffredinol.

6.2 Cytunodd y Pwyllgor i gael tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 7 Trafod y dystiolaeth am y cynnydd o ran cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru

7.1 Trafododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd gan Lywodraeth Cymru am y cynnydd wrth weithredu Safon Ansawdd Tai Cymru.

7.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru.